Datganiad Cenhadaeth y Ganolfan

Ein Gweledigaeth

I fod yn ganolfan ymchwil o'r radd flaenaf yn fyd-eang ym maes Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd sy'n gwneud cyfraniad arbennig i fywyd cenedlaethol Cymru ac yn meithrin cysylltiadau rhwng y diwylliannau Celtaidd

Ein Cenhadaeth

Amcanion y Ganolfan yw:

1. **Datblygu dealltwriaeth o'r diwylliannau Celtaidd** trwy gynnal rhaglenni ymchwil arloesol a lledaenu'r canfyddiadau i'r cyhoedd

2. **Cefnogi'r cyhoedd, addysgwyr, gwneuthurwyr polisi a'r cyfryngau, yn ogystal ag arbenigwyr**, trwy gynnig adnoddau awdurdodol a gwybodaeth arbenigol am Astudiaethau Celtaidd a'r iaith Gymraeg

3. **Cynnal y Gymraeg yn iaith hyfyw** trwy archwilio ei datblygiad, gosod ei safonau, a hyrwyddo ei defnydd fel cyfrwng ysgolheictod a thrafodaeth ddeallusol

4. **Datblygu arbenigedd i'r dyfodol mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd** trwy gyfrannu at ddysgu is-raddedigion, hyfforddi ôl-raddedigion a darparu cyfleoedd ymchwil ôl-ddoethurol, yn annibynnol ac mewn partneriaeth â sefydliadau ar draws y byd

5. **Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y diwylliannau Celtaidd yn rhyngwladol** trwy lunio partneriaethau, denu myfyrwyr o safon uchel, lledaenu ymchwil ac ysgogi rhyngweithio

Ein Strategaeth

Rydym yn cyflawni ein hamcanion trwy:

- Gynnal prosiectau ymchwil cydweithredol hirdymor ar ieithoedd, llenyddiaethau, diwylliant a hanes Cymru a'r gwledydd Celtaidd eraill

- Gydweithio â sefydliadau academaidd a chyrff cyhoeddus eraill yn ein gwlad ac yn rhyngwladol

- Gyhoeddi ein gwaith mewn print ac ar lein yn nwy iaith Cymru ac mewn ieithoedd eraill

- Drefnu cynadleddau a digwyddiadau cyhoeddus eraill yng Nghymru a chyflwyno ein gwaith ar draws y byd

- Ddarparu *Geiriadur Prifysgol Cymru*, *Y Bywgraffiadur Cymreig*, *Cymru 1900* (cronfa enwau lleoedd), *AEMAP* (cronfa ddata iaith ac archaeoleg Oes yr Efydd), *Gutorglyn.net* ac adnoddau electronig eraill ar lein yn ddi-dâl

- Ddatblygu sail ariannol gadarn, amrywiol a chynaliadwy ar gyfer ein gweithgareddau

- Ddenu, meithrin a chadw staff o ansawdd uchel

- Sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithlon ac yn rhoi'r gwerth uchaf am yr arian cyhoeddus a phreifat a fuddsoddir yn ein gwaith